

ANRHEG PEN-BLWYDD YN ANRHYDEDDU TRIGOLION Y RHYL

MAE trigolion y Rhyl i dderbyn anrhydedd arbennig i ddathlu pen-blwydd EM y Frenhines yn 90 oed.

Mae trigolion y Rhyl sydd hefyd yn cyrraedd carreg filltir eu pen-blwydd hwy yn 90 oed i gael anrheg gan Gyngor Tref y Rhyl.

Meddai Maer y Rhyl, y Cyngorydd Barry Mellor: “Mae pen-blwydd y Frenhines yn cael ei ddathlu ar hyd a lled y wlad. Bydd rhai o drigolion y Rhyl hefyd yn 90 oed eleni ac roeddem eisiau rhoi anrheg iddynt i ddathlu’r achlysur.”

Bydd y rhai sy’n cyrraedd eu 90, neu sydd eisoes wedi cyrraedd eu pen-blwydd yn 90, yn derbyn darn arian coffa arbennig EM y Frenhines a bathodyn pin tref y Rhyl.

Gall trigolion sy’n dathlu’r pen-blwydd pwysig hwn eu henwebu eu hunain neu gall ffrindiau neu deulu eu henwebu.

“Mae’r anrhydedd pen-blwydd yn agored i unrhyw un o drigolion y Rhyl sydd wedi cyrraedd, neu a fydd yn cyrraedd 90 eleni. Mae ffurflen gais fer ar gael i’w lawrlwytho ar ein gwefan www.rhyl-wales.co.uk” ychwanegodd y Cyngorydd Mellor.

Mae’r rhodd yn rhan o gyfres o ddathliadau yn y dref i ddathlu pen-blwydd EM y Frenhines.

Mae digwyddiad Brenhinol hefyd ar y gweill sy’n cynnwys sinema leiaf y byd, jiwcbocs dynol, trêen frenhinol, gemau stryd a helpa drysor mewn amrywiol leoliadau yn y Rhyl. Cynhelir y digwyddiad ar ddydd Sadwrn 11 Mehefin, 11am-4pm.

Diwedd

13 Mai 2016





Dathliadau pen-blwydd EM y Frenhines

Ydych chi, neu ydych chi'n adnabod rhywun sy'n 90 oed eleni? I ddathlu achlysur pen-blwydd EM y Frenhines yn 90, bydd Cyngor Tref y Rhyll yn cyflwyno i unrhyw un o drigolion y Rhyll sy'n 90 eleni fathodyn arbennig a dref a medal coffa pen-blwydd y Frenhines. Yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw cwblhau'r ffurflen isod a'i dychwelyd atom.

Enw'r preswylydd /

preswylwyr: _____

Dyddiad geni:

Cyfeiriad y

preswylydd: _____

Enw'r person sy'n enwebu:

Cyfeiriad (os yn wahanol):-


Rhif ffôn cyswllt:

Dydd: _____

Gyda'r nos: _____

Ebst:

Sylwadau ychwanegol:



Lawrlwythwch y ffurflen neu ei hargraffu ac anfon y ffurflen, wedi ei chwblhau, i'r cyfeiriad canlynol:

Ebost: enquiries@rhyltowncouncil.org.uk

Post: Cyngor Tref y Rhyl, Canolfan Gymunedol Wellington, Ffordd Wellington, y Rhyl, LL18 1LE.

Ff: 01745 331114 **G:** www.rhyl-wales.co.uk

